





# 2 Tanycastell, Dolwyddelan

## £455,000 Freehold

Eiddo Hanesyddol o'r 17fed Ganrif / 17th Century Historical Property • Ar gyrion Parc Genedlaethol Eryri / On outskirts of Eryri National Park • Lleoliad Gwledig Tawel / Peaceful Rural Setting • Lle Parcio Preifat gyda Cofeb / Private Driveway with Monument • Plot Mawr a Gerddi Swmpus / Large Plot with Lawns • Grade II Listed Building • Log Burners • Nodweddion Gwreiddiol Traddodiadol / Traditional Original Features • Teimlad Hanesyddol Cymraeg / Welsh Historic Character • Bywyd Natur / Wildlife-rich Environment

catra



Council Tax band: D

Tenure: Freehold

- Cartref Gradd II rhestredig
- Tair ystafell wely
- Ystafell fwyta a lolfa fawr
- Llawn dop o nodweddion gwreiddiol
- Golygfeydd eang o gefn gwlad
- Man parcio ar gyfer pedwar cerbyd
- Wedi'i gysylltu â dŵr a thrydan y prif gyflenwad
- Gwres canolog nwy LPG
- System garthffosiaeth breifat trwy danc septig
- Cysylltiad band eang drwy gopr (ADSL)

- *Grade II listed home*
- *Three bedrooms*
- *Spacious dining and living room*
- *Packed with original features*
- *Peaceful rural location*
- *Parking for up to four vehicles*
- *Connected to mains water and electricity*
- *LPG gas central heating*
- *Private drainage via a septic tank*
- *Broadband connection via copper (ADSL)*

**“Mae nodweddion arbennig yn perthyn i'r tŷ - y llefydd tan a'r distiau gwreiddiol, lloriau llechi a phren a theimlad o gamu yn ol mewn hanes i gyfnod a fu. Yn wir, 'custodians' yw pwy bynnag fydd yn prynnu'r ty arbennig hwn. Does dim tebyg iddo ar y farchnad.”**

Wedi’i leoli ychydig islaw Castell Dolwyddelan, gydag uchelfannau Moel Siabod yn codi yn y pellter, mae 2 Tan y Castell yn rhan o ffermdy o’r 17eg ganrif — cartref sydd wedi ei wreiddio’n ddwfn yn hanes a thirwedd Eryri. Roedd y tŷ’n gartref i John Jones, un o bregethwyr mwyaf dylanwadol Cymru. Gyda’i furiau carreg trwchus ac manylion wedi’u crefftio â llaw, mae’r tŷ hanesyddol hwn yn cynnig tawelwch a bywyd syml.

**"This house is full of special features – the fireplaces and original beams, slate and wooden floors, and a sense of stepping back in time to a bygone era. Truly, whoever buys this remarkable home will become its custodians. There's nothing else like it on the market."**

*Tucked just below Dolwyddelan Castle, with Moel Siabod rising in the distance, 2 Tan y Castell forms part of a 17th-century farmhouse — a place deeply rooted in the landscape and story of Eryri. The house was once home to John Jones, one of the most influential preachers in Welsh history. With its thick stone walls and handcrafted details, this home holds the quiet weight of history, while offering spacious, characterful living.*



**Cegin / Kitchen**

Y cegin yw’r ystafell gyntaf i’ch croesawu wrth fynd i mewn — gofod ymarferol a chroesawgar sy’n cyfuno hanes â defnyddioldeb. Mae lloriau llechan traddodiadol yn rhedeg drwy’r ystafell, gan roi naws gadarn. Mae’r llygad yn cael ei dynnu’n syth at y popty haearn o dan drawst pren trwchus — awgrym cynnil o orffennol y cartref. Mae’r gegin yn fodern ac ymarferol, gyda chypyrddau ar ddwy ochr ac mae’r ffenestr uwchben y sinc yn edrych dros yr ardd a'i adar.

*The kitchen is the first room to welcome you in — a practical and inviting space where tradition meets comfort. Slate flooring runs throughout, anchoring the room in timeless style. Your eye is drawn to the cast iron stove beneath a chunky timber beam, gently honouring the home’s past. Modern and well-equipped, the kitchen has units on both sides, with a sink-side window overlooking the garden and visiting birds.*














**Ystafell Fwyta / Dining Room**
O bosib ystafell harddaf y tŷ, mae'r ystafell fwyta yn llawn cynhesrwydd a chymeriad. Mae'r ffenestri traddodiadol yn tynnu'r llygad yn syth, gan fframio'r golygfeydd o'r tirwedd cyfagos yn berffaith. Mae digon o le i ddeg eistedd o amgylch y bwrdd, a lle tân mawr sy'n angori'r gofod. Ystafell sy'n annog dod ynghyd — ond sy'n addas hefyd ar gyfer eiliadau tawel. Gofod â chalon a phosibiliadau.

*Arguably the most beautiful room in the house, the dining room is full of warmth and charm. The traditional windows instantly draw the eye, perfectly framing views of the surrounding landscape. There's ample space to seat ten around a dining table, and a large characterful fireplace anchors the space. It's a room that invites gathering, but equally lends itself to quiet moments — a space with heart and flexibility.*

**Ystafell Fyw / Lounge**

Mae’r lolfa’n ystafell fawr a chroesawgar, llawn naws dawel a chymeriad. Mae’r lloriau pren gwreiddiol a’r paneli pren cyfoethog ar y waliau yn rhoi cynhesrwydd naturiol, tra bo’r trawstiau agored yn ychwanegu at awyrgylch hanesyddol y lle. Mae’r ffenestri traddodiadol yn cario’r golau drwy’r ystafell. Mae’r tanllwyth coed yn ganolbwynt perffaith ar gyfer nosweithiau gaeafol. Mae drws hen a gwreiddiol yn arwain i’r festri blaen — tyst distaw i hanes y cartref.

*The lounge is a large, welcoming space with a sense of calm and character. Original wooden floorboards and rich timber wall panelling give the room a warm, grounded feel, while exposed ceiling beams add to its historic charm. The traditional windows, echoed from the dining room, allow natural light to flow through. A log burner sits at the heart, perfect for cosy evenings in winter. A beautiful old door leads out to the shared vestibule — a lovely nod to the home’s heritage.*














**Ystafell Wely 1 / Bedroom 1**

Mae'r brif lofft yn cynnig naws o fawredd tawel — yn gain ac ymlaciol. Gyda lloriau pren gwreiddiol a lle hael ar gyfer gwely mawr, mae'n fan encil perffaith. Mae'r ffenestr yn edrych dros y lawnt, gan greu lle delfrydol i fwynhau paned foreol. Mae en suite preifat gyda chawod a thoiled yn ychwanegu ymarferoldeb.

*The primary bedroom has a soft sense of grandeur — elegant yet restful. With original wooden floors and space for a king-size bed, it offers a peaceful retreat at the heart of the home. The window looks directly over the lawn, making it the perfect spot to enjoy a morning cup of tea. A private en suite with shower and WC adds practicality.*

**Ystafell Wely 2 / Bedroom 2**

Dyma'r lleiaf o'r tair llofft, ond nid yw'n teimlo'n fach o gwbl. Wedi'i lleoli yn y blaen, mae'r ffenestr yn edrych dros y buarth tawel. Mae'r lloriau pren gwreiddiol yn parhau yma, a lliwiau'r ystafell yn ychwanegu cynhesrwydd a chysylltiad â'r tirwedd o'i chwmpas. Mae digon o le i wely mawr, neu gallai fod yn llofft berffaith i blentyn — yn ddelfrydol wedi'i lleoli wrth ymyl y brif lofft.

*This is the smallest of the three bedrooms, though it hardly feels small. Set at the front of the house, it looks out over the peaceful courtyard. The original wooden floors continue here, and the room's colours adds warmth and a connection to the surrounding landscape. There's room for a double bed or it could make the perfect child's bedroom — ideally placed next to the main suite.*

**Ystafell Wely 3 / Bedroom 3**


Fe gyrhaeddwn yr ystafell fwyaf preifat yn y tŷ. Wedi'i gosod ar wahân i weddill yr ystafelloedd, mae yma ymdeimlad tawel a heddychlon. Mae'r ystafell yn fawr a hirgul — ar hyn o bryd yn cynnwys gwely 'king size' a sengl, sy'n tystio i faint y gofod sydd ar gael. Gofod delfrydol i westeion, teenager annibynnol neu fel swyddfa gartref sy'n mwynhau'r tawelwch.


*Up a charming set of internal steps, you'll find the home's most secluded bedroom. Tucked away from the others, there's a real sense of peace and retreat here. The room is generously long and wide — currently set up with both a 'king size' and a single bed, showing just how much flexibility the space offers. Ideal for guests, a teen seeking space, or a calming home office.*

**Ystafell Ymolchi / Bathroom**

Mae'r ystafell ymolchi deuluol hon yn llawn cymeriad ac yn manteisio'n llawn ar ei safle uchel – ble arall allwch chi fwynhau golygfeydd mor syfrdanol o'r bath a'r toiled? Mae'r lloriau pren yn ychwanegu cynhesrwydd ac yn uno'r gofod gyda gweddill y cartref, yn berffaith ar gyfer trochiad hir wrth syllu dros dirlun Eryri.

*This bright family bathroom makes the most of its elevated position — where else can you enjoy such striking views from both the bath and the toilet? The wooden floorboards underfoot bring warmth, perfect for a long soak while gazing out at the Eryri landscape.*










**Garden**


Mae'r ardd yn lapio'n daclus o amgylch y cartref, wedi'i hamgylchynu gan blannu aeddfed a golygfeydd eang dros Foel Siabod a Chastell Dolwyddelan. I'r ochr, mae lawnt helaeth sy'n cynnig lle i ymlacio neu fwyta yn yr awyr agored, gyda golygfa glir dros y dyffryn. Mae sied fach yn cynnig storfa ddefnyddiol, ac mae ardal barcio gerllaw. Mae hawl tramwy'n bodoli, ond efallai gellir creu mynediad preifat os dymunir.

*The garden wraps neatly around the home, bordered by mature planting and far-reaching views of Moel Siabod and Dolwyddelan Castle. To the side, a generous lawn provides space to relax or dine outdoors, with a clear outlook across the valley. A small outbuilding offers useful storage, and a discreet parking area sits nearby. An easement allows shared access, though a private route could possibly be created if preferred.*


















Energy Efficiency Rating
Current
Potential
Very energy efficient - lower running costs
(92+) A
(81-91) B
(69-80) C
(55-68) D
(39-54) E
(21-38) F
(1-20) G
68
29
Not energy efficient - higher running costs
England, Scotland & Wales
EU Directive 2002/91/EC


Environmental Impact ($CO_2$) Rating
Current
Potential
Very environmentally friendly - lower $CO_2$ emissions
(92+) A
(81-91) B
(69-80) C
(55-68) D
(39-54) E
(21-38) F
(1-20) G
8
3
Not environmentally friendly - higher $CO_2$ emissions
England, Scotland & Wales
EU Directive 2002/91/EC


Bedroom
162.70 sq ft
Hall
34.31 sq ft
Bedroom
205.36 sq ft
Bedroom
169.76 sq ft
Bathroom
90.88 sq ft


Kitchen
148.68 sq ft
Living Room
290.38 sq ft
Dining Room
249.42 sq ft